



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: WQ82846

Heledd Fychan AS
Aelod o'r Senedd dros Ranbarth Canol De Cymru

Heledd.Fychan@senedd.cymru

20 Gorffennaf 2021

Annwyl Heledd,

Diolch am eich Cwestiwn Ysgrifenedig diweddar yn gofyn sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod mwy'n cael ei wneud i wella iechyd pobl sy'n byw mewn ardaloedd ôl-ddiwydiannol, megis Rhondda Cynon Taf, lle rydym wedi gweld nifer sylweddol o farwolaethau yn sgil COVID-19.

Un o uchelgeisiau craidd y Llywodraeth hon yw gwneud popeth o fewn ein gallu i wella iechyd pawb yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau annerbyniol mewn canlyniadau iechyd rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig. Byddwn yn parhau i ddefnyddio dull Llywodraeth gyfan wrth ymdrin ag achosion sylfaenol anghydraddoldeb iechyd, sy'n deillio'n bennaf o'r modd anghyfartal y caiff penderfynyddion iechyd eu dosbarthu: meysydd fel tai o ansawdd, incwm aelwydydd, gwytnwch personol, aer glân, cymdogaethau iach a mynediad at ofal iechyd o ansawdd, a'n bwriad yw mynd i'r afael â'r rhain yn unol â'r ymrwymïadau a nodir yn ein Rhaglen Lywodraethu newydd.

Yn ogystal â hynny, mae cefnogi pobl i fod yn fwy actif yn gorfforol, i gynnal pwysau iechyd a rhoi'r gorau i smygu yn allweddol er mwyn sicrhau gwelliannau hirdymor i ganlyniadau iechyd.

Mae ein Cronfa Iach ac Egniol yn ymrwymiad sylweddol gwerth £5.9 miliwn dros bedair blynedd i gefnogi prosiectau sy'n gwella iechyd meddyliol a chorfforol pobl ar draws Cymru, gan gynnwys mewn ardaloedd ôl-ddiwydiannol. Un enghraifft o hyn yw prosiect *Super-Agers*, sy'n ceisio cael pobl hŷn, gan gynnwys y rhieni yn Rhondda Cynon Taf, i fod yn fwy actif, gan wella eu lles corfforol a meddyliol.

Cafodd ein strategaeth 10 mlynedd, *Pwysau Iach: Cymru Iach*, ei lansio ym mis Hydref 2019, ac mae'n amlinellu'r cynllun i atal a lleihau cyfraddau gordewdra. Fel rhan o'r cyllid hwn, rydym hefyd wedi dyrannu £2.9m ar draws yr holl Fyrddau Iechyd Lleol, gan gynnwys £439,000 ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf Morgannwg, a fydd yn helpu i ddatblygu gwasanaethau rheoli pwysau yng Nghymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i'n nod tymor hwy i gael Cymru di-fwg, a pharhau i helpu smygwyr i roi'r gorau iddi drwy wasanaethau Helpa Fi i Stopio. Hefyd yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn anghyfreithlon i smygu ar dir ysbytai, ar dir ysgolion, mewn meysydd chwarae cyhoeddus ac yn ardaloedd awyr agored lleoliadau gofal plant, gan ein bod yn benderfynol bod ein plant a'n pobl ifanc yn gweld llai o bobl yn smygu ac yn ei ystyried fwyfwy yn arfer anarferol.

Yn gywir,



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services